# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Claire Price Beauty Clinic,

Y Fenni

Dyddiad arolygu: 03 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: 03 Gorffennaf 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-80038-776-8



© Hawlfraint y Goron 2020

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Darparu gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 22

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ........ 23

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ........ 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Claire Price Beauty Clinic ar 03 Mawrth 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith yn Claire Price Beauty Clinic i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth effeithiol i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau Golau Pwls Dwys (IPL).

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol, gyda phob un o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y staff clinigol y sgiliau gofynnol i helpu i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y clinig yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau a safonau proffesiynol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd y clinig yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ac yn mynd ati i geisio adborth gan y cleifion am eu profiadau
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben
- Roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn bodloni gofynion rheoliadol

- Mae angen cynnal profion ar y larymau tân unwaith yr wythnos yn hytrach nag unwaith y mis
- Mae angen diwygio'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig er mwyn dangos yn glir pwy yw gweithredwyr y peiriant IPL
- Mae angen cymryd camau mewn perthynas ag argymhelliad a nodwyd mewn asesiad risg amgylcheddol diweddar.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Claire Price Beauty Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau IPL yn Beechcroft House, Hereford Road, y Fenni, NP7 6LE.

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar y clinig. Caiff ei chefnogi gan dîm mawr o 10 o aelodau staff, sy'n cynnwys pum gweithredwr peiriant IPL arall.[1]

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 08 Mawrth 2005, ac mae'n darparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed gan ddefnyddio peiriant IPL Depilex L900.

- Gwaredu blew
- Gwaredu gwythiennau edau
- Pigmentiad
- Ffoto-adfywio
- Wyneb croen anwastad
- Cochni a chroendyllau agored
- Acne
- Acne rhosynnaidd.

[1] Ystyr rheolwr cofrestredig yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgyngoriadau a thriniaethau.

Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y clinig.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Rwyf bob amser yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a roddir yn y clinig hwn"*
>
> *"Rwy'n teimlo'n gwbl hyderus wrth gael fy nhriniaethau yma, maen nhw mor broffesiynol"*
>
> *“Cefais wasanaeth a gofal da iawn"*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Rhaid i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgynghoriad cychwynnol, a rhaid iddynt lofnodi ffurflen cyn pob sesiwn driniaeth ddilynol er mwyn cadarnhau p'un a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol ai peidio. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod hefyd wedi llenwi

ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun wedi cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

### Urddas a pharch

Cynhelir ymgyngoriadau â chleifion yn breifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn gallu newid yn yr ystafell driniaeth wag os bydd angen, a'u bod yn cael gynau llofft er mwyn helpu i gynnal eu hurddas. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno ei fod wedi'i drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig, ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn cael gwybod eu bod yn gallu cael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgyngoriadau, ond nid yn ystod sesiynau triniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n asesu galluedd y cleifion i gydsynio i driniaeth a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r cleifion yn gallu gwneud eu penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chydsynio i driniaeth. Mae'r cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb ag un o'r gweithredwyr IPL cyn cael triniaeth, er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael iddynt, a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth gan y clinig, a'i bod bob amser yn cael ei hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddo ei chael.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio yng nghofnodion y cleifion a oedd wedi'u llofnodi gan y claf i gadarnhau'r drefn hon.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Roedd canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Gwelsom fod angen ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol. Mae angen cynnwys crynodeb o sylwadau'r cleifion am eu profiadau o ofal a thriniaeth yn y clinig a chrynodeb o'r weithdrefn gwyno yn y canllaw hwn.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben[2] i ni, a gwelsom ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o sylwadau'r cleifion am eu profiadau o ofal a thriniaeth yn y clinig a chrynodeb o'r weithdrefn gwyno.

### Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn helpu i bennu gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y peiriant IPL, o ystyried y math o groen a gwallt sydd gan y claf. Mae'n ofynnol i gleifion gael prawf clwt ar ran fach o'u croen cyn cael triniaeth; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf clwt cyn iddynt gael triniaeth i gadarnhau'r drefn hon.

Mae'r cleifion yn cael taflen â chyfarwyddiadau ôl-ofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i atal heintiau a helpu'r broses wella ar ôl eu triniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd tystiolaeth eu bod yn cael eu cynnal i safon uchel, gan olygu bod diogelwch a llesiant cleifion, yn ogystal ag anghenion unigol, yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd maes parcio ar gael i'r cleifion y tu allan i'r clinig, ac roedd ramp ar gael i'r brif fynedfa er mwyn sicrhau bod pob claf yn gallu dod i mewn i'r adeilad.

[2] Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Er bod rhai o'r cyfleusterau ar y llawr gwaelod, mae'r ystafell driniaeth IPL ar y llawr cyntaf, ac felly nid yw'n hawdd i bobl â phroblemau symudedd ei defnyddio. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am hyn pan fyddant yn cysylltu â'r clinig, ond rydym yn argymell y dylai'r canllaw i gleifion hefyd gynnwys gwybodaeth glir am y materion hygyrchedd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion i roi gwybod i gleifion ag anawsterau symudedd am y materion hygyrchedd yn y clinig.

### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan y cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd cardiau sylwadau ar gael yn yr ardal aros, ac mae'r cleifion yn cael holiadur ar ddiwedd pob cwrs o driniaeth. Gellir rhoi adborth yn ddienw, a gwnaethom nodi bod hyn enghraifft o arfer da. Gall y cleifion hefyd gwblhau adolygiad ar-lein o'u profiadau yn y clinig.

Dywedwyd wrthym fod adborth y cleifion yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod unrhyw bwyntiau dysgu'n cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf, ac roedd y gofal hwnnw yn cael ei ddogfennu mewn cofnodion cleifion a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, ac roedd y peiriant IPL  wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y clinig yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau a safonau proffesiynol.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau bod gwiriadau o wifrau trydanol a diogelwch nwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal  yn flynyddol hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg tân wedi'u cynnal yn rheolaidd gan arbenigwr diogelwch tân proffesiynol er mwyn rhoi sicrwydd parhaus bod trefniadau ar waith yn y clinig i ddarparu digon o ddiogelwch pe byddai tân. Roedd y dyfeisiau diffodd tân yn y clinig wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir, ac roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân.

Gwelsom dystiolaeth bod profion larymau tân wedi cael eu cynnal a'u cofnodi bob mis. Fodd bynnag, mae angen i'r clinig ddechrau cynnal profion wythnosol ar y larymau tân a'u cofnodi er mwyn cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol i'w dilyn mewn argyfwng, megis pe bai claf yn llewygu, a gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant

cymorth cyntaf i drin mân anafiadau. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael, gyda'i gynnwys i gyd o fewn eu dyddiadau dod i ben ac felly'n addas at y diben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cynnal profion wythnosol ar y larymau tân a'u cofnodi.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da ac roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion am lendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau addas a oedd ar waith yn y clinig, a oedd yn cynnwys sicrhau hylendid dwylo da a chwblhau rhestr wirio glanhau bob dydd er mwyn dogfennu'r gwaith glanhau a wneir yn yr ystafell driniaeth a'r gwaith o lanhau'r cyfarpar IPL. Fodd bynnag, ni welsom fod y trefniadau hyn wedi'u nodi ym mholisi rheoli heintiau'r clinig. Rydym yn argymell bod y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r trefniadau presennol er mwyn sicrhau bod aelodau o'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rheoli heintiau, yn enwedig mewn perthynas â'r peiriant IPL a'r ystafell driniaeth.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid adolygu a diweddaru'r polisi rheoli heintiau i nodi'r holl drefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y clinig.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion dros 18 oed yn unig. Ni all unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion i apwyntiadau fynd i mewn i'r ystafell driniaeth pan gaiff triniaeth ei chynnal er mwyn eu diogelu.

Gwelsom fod polisi diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar waith, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol er mwyn sicrhau y gellir rhoi gwybod am unrhyw bryderon mewn modd priodol ac amserol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob aelod o'r staff yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed a all fod mewn perygl.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod trefniadau ar waith yn y clinig i sicrhau diogelwch y cleifion wrth dderbyn triniaeth. Roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu a'u calibradu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl. Roedd protocol triniaeth feddygol ar waith hefyd, yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau y caiff triniaeth ei rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion. Roedd y protocol wedi cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd y clinig wedi trefnu contract â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau newydd yn ddiweddar, er mwyn darparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch mewn perthynas â'r defnydd gweithredol o'r peiriant o ddydd i ddydd. Gwelsom fod rheolau lleol[3] cynhwysfawr ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau newydd, yn unol ag amodau cofrestriad y clinig ag AGIC.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi llofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau ac yn eu deall. Fodd bynnag, dim ond gweithredwyr y peiriant IPL sydd angen llofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig er mwyn dangos eu bod yn cytuno i ddilyn y rheolau lleol wrth roi triniaethau. Rydym yn argymell y dylai'r gofrestr gael ei diwygio er mwyn dangos yn glir pwy yw gweithredwyr y peiriant IPL.

[3] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diwygio'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol er mwyn cynnwys dim ond y gweithredwyr peiriant IPL hynny sy'n rhoi triniaethau i gleifion.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried a oedd pob un o'r gweithredwyr peiriant IPL yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion (MHRA)[4] i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant IPL. Roedd pob un o'r gweithredwyr IPL wedi cael hyfforddiant gan wneuthurwyr y peiriant IPL ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau cwrs hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[5] yn ddiweddar. Roedd y gweithredwyr peiriant IPL eraill wedi'u cydnabod yn ddefnyddwyr cymwys gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau blaenorol ar ôl iddynt gwblhau asesiad ar y pynciau a gaiff eu trafod fel arfer yn y cwrs Craidd Gwybodaeth. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a gytunodd y byddai'n trefnu i'r gweithredwyr IPL eraill gwblhau cwrs hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, yn debyg i'r un a gwblhawyd ganddi hi, er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol bod pawb yn meddu ar yr un lefel o wybodaeth ac ymwybyddiaeth.

Roedd amrywiaeth o gyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr IPL. Gwelsom fod y sbectol a'r gogls yn cael eu cadw mewn cyflwr da, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio bob dydd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Gwelsom fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau newydd wedi ymweld â'r clinig yn ddiweddar i gwblhau asesiad risg amgylcheddol er mwyn nodi a lliniaru unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant IPL ac amgylchedd pob ystafell driniaeth. Gwelsom mai un o'r camau a argymhellwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau oedd cael gwared ar un o'r ddau arwydd

[4] Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices

[5] Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau IPL/laser yn ddiogel.

rhybuddio ar ddrws yr ystafell driniaeth IPL, a oedd yn dweud bod y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio ac na ddylai neb ddod i mewn i'r ystafell. Roedd dau arwydd ar ddrws yr ystafell driniaeth o hyd ar ddiwrnod ein harolygiad, ac rydym yn argymell y dylid cael gwared ar un ohonynt yn unol â chyngor y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod allwedd y peiriant laser yn cael ei gymryd o'r peiriant ar ôl pob apwyntiad ac yn cael ei storio ar wahân er mwyn sicrhau y caiff y peiriant ei gadw dan glo ac na all unrhyw unigolion anawdurdodedig ei ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gweithredwyr IPL cwblhau cwrs hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn debyg i'r cwrs a gwblhawyd gan y rheolwr cofrestredig.

Mae angen dileu un o'r ddau arwydd rhybudd ar ddrws yr ystafell driniaeth IPL fel yr argymhellwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ei asesiad risg amgylcheddol diweddar.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod gan y clinig systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, gwnaethom nodi yn gynharach yn yr adroddiad fod y cleifion yn cael y cyfle i roi adborth ar eu profiadau yn y clinig. Hefyd, esboniodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl y driniaeth a thrafodaethau â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliad blynyddol o gofnodion cleifion a nodiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn unol â chanllawiau arferion gorau. Caiff unrhyw wersi a ddysgwyd a gwelliannau a nodir eu cyfleu i bob un o'r gweithredwyr IPL er mwyn sicrhau cysondeb.

### Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol ag arferion gorau a chanllawiau proffesiynol, a'u bod yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion. Roedd nodiadau'r cleifion yn fanwl ac o ansawdd da, ac roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaeth cleifion ar waith ar gyfer y peiriant IPL. Roedd cofnod o ddigwyddiadau niweidiol yn cael ei gadw ar wahân er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion cyffredin, a nodwyd gennym fel enghraifft o arfer da.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Sefydlwyd trefniadau llywodraethu addas yn y clinig i helpu'r staff yn eu rolau.

Byddai'r weithdrefn gwynion sydd ar waith yn y clinig yn sicrhau y gellid ymdrin â chwynion cleifion yn effeithiol ac yn amserol.

Lluniwyd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion a gwelsom fod pob un ohonynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y rhain ar gael yn haws i'r staff.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau; roedd yn rhaid i'r staff lofnodi er mwyn dangos eu bod wedi darllen a deall pob polisi. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unrhyw newidiadau i'r rhain yn cael eu cyfleu i bob aelod o'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yn hawdd i'r staff gael gafael ar bob un o'r polisïau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wrthi'n llunio llawlyfr i'r staff a fyddai'n cynnwys trosolwg o'r polisïau allweddol sydd ar waith yn y clinig. Gwnaethom gefnogi'r syniad hwn, gan annog y rheolwr i sicrhau ei fod ar gael yn fuan er mwyn gwneud yn siŵr bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig ganddynt wrth weithio yn y clinig.

Gwelsom fod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei amddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno glir a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom y byddai'n galluogi'r staff i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn amserol. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben. Gwnaethom argymell yn gynharach yn yr adroddiad y dylid cynnwys crynodeb yn y canllaw i gleifion hefyd.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn gan y cleifion.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth fod gweithredwyr y peiriant IPL yn cael eu cefnogi gan y clinig i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol drwy gwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd sy'n berthnasol i'w rolau fel rhan o'u rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus[6] (DPP).

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn trafod unrhyw broblemau posibl, nodi gwersi a ddysgwyd a rhoi cyfle i'r staff godi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [7] (DBS) er mwyn helpu i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol, sef bod gan y staff uniondeb addas a chymeriad da, helpu i ddiogelu cleifion rhag y perygl o ofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer recriwtio a sefydlu unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi

[6] Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r broses o ddogfennu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn helpu i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

[7] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio a chyfnod o fentora a goruchwylio er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r rôl. Gwnaethom argymell efallai y byddai'r rheolwr cofrestredig am ystyried dogfennu'r weithdrefn hon drwy lunio rhestr wirio sefydlu sy'n nodi'r tasgau neu'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o'r staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'r clinig a'u rôl.

Roedd polisi chwythu'r chwiban gan y clinig a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Argymhellwn y dylid diweddaru'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r clinig ddiweddaru ei bolisi chwythu'r chwiban er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Claire Price Beauty Clinic

## Dyddiad arolygu: 03 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o sylwadau'r cleifion am eu profiadau o ofal a thriniaeth yn y clinig a chrynodeb o'r weithdrefn gwyno. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 7 | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |
| Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion i roi gwybod i gleifion ag anawsterau symudedd am y materion hygyrchedd yn y clinig. | | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid cynnal profion wythnosol ar y larymau tân a'u cofnodi. | Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |
| Rhaid adolygu a diweddaru'r polisi rheoli heintiau i nodi'r holl drefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y clinig. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 9(1n) | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |
| Mae angen diwygio'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol er mwyn cynnwys dim ond y gweithredwyr peiriant IPL hynny sy'n rhoi triniaethau i gleifion. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br>Safon 16 | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |
| Dylai'r gweithredwyr IPL cwblhau cwrs hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn debyg i'r | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cwrs a gwblhawyd gan y rheolwr cofrestredig.<br><br>Mae angen dileu un o'r ddau arwydd rhybudd ar ddrws yr ystafell driniaeth IPL fel yr argymhellwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ei asesiad risg amgylcheddol diweddar. | gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 24 | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r clinig ddiweddaru ei bolisi chwythu'r chwiban er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 25 | Cwblhawyd | Claire Price | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Claire Price**

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | **Rheolwr Cofrestredig** |
| **Dyddiad:** | **10 Mehefin 2020** |